# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 1

ATGYFNERTHU DEMOCRATIAETH LEOL

## PENNOD 2

GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AWDURDOD LLEOL

### 12 Aelodaeth

(1) Mae awdurdod lleol i benodi aelodau o'i bwyllgor gwasanaethau democrataidd.

(2) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau—

(a) bod pob aelod o'i bwyllgor gwasanaethau democrataidd yn aelod o'r awdurdod;

(b) nad oes mwy nag un o aelodau ei bwyllgor gwasanaethau democrataidd yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod;

(c) yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru), nad yw'r arweinydd gweithrediaeth yn aelod o'i bwyllgor gwasanaethau democrataidd.

(3) Ni fydd penodi person yn aelod o bwyllgor gwasanaethau democrataidd yn cael unrhyw effaith os bydd aelodaeth y pwyllgor yn mynd yn groes i is-adran (2) yn union ar ôl ei benodi (p'un ai yn rhinwedd y penodiad ai peidio).

(4) Mewn achos pan fo un person neu ragor, ar adeg neilltuol, i'w wneud neu i'w gwneud yn aelod neu'n aelodau o bwyllgor gwasanaethau democrataidd, neu i beidio â bod yn aelod neu'n aelodau o bwyllgor gwasanaethau democrataidd, mae'r newidiadau hynny yn yr aelodaeth i'w hystyried wrth benderfynu a fyddai aelodaeth y pwyllgor yn mynd yn groes i is-adran (2).

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 22/04/2020. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 12. (See end of Document for details)*

(5) Mae pwyllgor gwasanaethau democrataidd i awdurdod lleol i'w drin fel corff y mae adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (dyletswydd i ddyrannu seddau i grwpiau gwleidyddol) yn gymwys iddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 12 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 22/04/2020. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 12.